

# **Aseiad o Effaith ar yr Iaith Gymraeg**

**Awst 2014**

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

<b>Teitl:</b> Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Diogelu Pobl Hŷn (60+) yng Nghymru.	<b>Rhif Cyfeirnod yr Asesiad</b> <i>(I'w llenwi gan Uned y Gymraeg):</i> 15/11/01				
<b>Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:</b>	Hannah Fisher				
<b>Dyddiad:</b>	11/11/15				
<b>Arweinydd polisi:</b>	Hannah Fisher				
<b>Manylion cyswllt:</b>	02920 801064 Hannah.fisher@wales.gsi.gov.uk				
<b>Math o Raglen/Prosiect</b> <input type="checkbox"/> Polisi <span style="margin-left: 150px;"><input checked="" type="checkbox"/> Prosiect neu raglen</span> <input type="checkbox"/> Deddfwriaeth <span style="margin-left: 150px;"><input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad</span> <input type="checkbox"/> Grant <span style="margin-left: 150px;"><input type="checkbox"/> Gwasanaethau</span> <input type="checkbox"/> Newid busnes <span style="margin-left: 150px;"><input type="checkbox"/> Contractau, tendrau</span> <input type="checkbox"/> Seilwaith <input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf <input type="checkbox"/> TGCh <input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)					
<b>Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?</b> Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).					
O dan £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Dros £1miliwn	
<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
<b>O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?</b> Y gost o gyfieithu'r canllawiau.					
<b>Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?</b>					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<b>Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:</b>					
Cyflwyno'r Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Mehefin 2014. Cydsyniad Brenhinol: Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.					

Datblygu'r canllawiau cychwynnol: Medi 15 – Tach 15.

Ymgynghori â'r cyhoedd ar y canllawiau: Rhag 15 – Maw 16.

## **CAM 1: CYNLLUNIO**

### **Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?**

Pwrpas y canllawiau yw galluogi ymarferwyr a rheolwyr sy'n gweithio ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru i weithio'n fwy effeithiol â phobl hŷn sy'n profi, neu sydd wedi profi cam-drin domestig. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos ag asiantaethau partner sy'n ymwneud yn union neu'n anuniongyrchol â chefnogi pobl hŷn, beth bynnag yw eu hanghenion gofal a chymorth ychwanegol neu p'un ai yw eu hamgylchiadau'n eu gwneud yn agored i niwed neu beidio.

Y gobaith yw y bydd y canllawiau ymarfer da'n arwain at ddealltwriaeth ddyfnach o'r materion hyn a chanlyniadau gwell i bobl hŷn. Yn benodol, mae'r canllawiau'n ceisio:

- cynnig cyngor ymarferol i staff a rheolwyr i sicrhau bod gan bobl hŷn sy'n profi, neu sydd wedi profi cam-drin domestig, fynediad at y cyngor a'r cymorth gorau sydd ar gael;
- helpu pobl i adnabod a datblygu dealltwriaeth o gyd-destun diogelu oedolion a cham-drin pobl hŷn yn y cartref a pha ymatebion y dylid ystyried eu rhoi o ganlyniad;
- cyfrannu at wybodaeth a hyder gweithwyr proffesiynol i fynd i'r afael â chymhlethdodau gweithio gyda phobl hŷn sydd angen gofal a chymorth arnynt o ganlyniad i gam-drin domestig, ond sydd hefyd angen i weithwyr proffesiynol ymateb i'w hanghenion gofal a chymorth eraill.

### **Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?**

a

### **Beth fydd yr effeithiau os na fydd y polisi'n cael ei weithredu?**

Ar 15 Ionawr 2015 ysgrifennodd Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru at y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig trefniant cydweithredu rhwng ei swyddfa hi a Llywodraeth Cymru i gynhyrchu dogfen yn dwyn y teitl 'Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Diogelu Pobl Hŷn (60+) yng Nghymru'.

Yn ei llythyr, dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn fod ymchwil a gomisiynwyd ganddi'n dangos bod cryn ddryswch ymhlith cyrff sector cyhoeddus oedd yn gyfrifol am ddiogelu pobl hŷn.

Tramgwydd cyffredin yw'r dryswch rhwng cam-drin domestig wrth i bobl fynd yn hŷn, a cham-drin pobl hŷn, a sut i wahaniaethu rhwng ac adnabod y ddau beth, gyda phobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig yn meddiannu'r gofod aneglur rhwng dwy broblem gymdeithasol. O ganlyniad mae dioddefwyr hŷn yn disgyn rhwng y craciau yn y systemau diogelu oedolion a cham-drin domestig.

Roedd yr ymchwil hefyd yn nodi diffyg dealltwriaeth gyffredinol ymhlith gweithwyr proffesiynol yn y sectorau gofal cymdeithasol i oedolion, iechyd a thai o ddeinameg a phatrymau cam-drin domestig fel y'i profir gan bobl hŷn.

Cytunodd y Gweinidog i ddatblygu dogfen ganllawiau mewn partneriaeth â'r Comisiynydd Pobl Hŷn ac ers hynny mae swyddogion wedi bod yn gweithio â swyddfa'r Comisiynydd i ddatblygu'r canllawiau hyn.

**A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - iaith fyw: iaith byw?**

Nid oes cysylltiad o bwys mawr rhwng y canllawiau hyn a'r Strategaeth. Fodd bynnag bydd yr ymgynghoriad sydd i ddod (ac yn benodol y cwestiwn ar yr iaith Gymraeg) yn gwella'r canllawiau ac yn rhoi sylw uniongyrchol i unrhyw faterion penodol sy'n codi yng nghyswllt pobl hŷn Cymraeg eu hiaith.

**Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Gofynnir am farn pobl am effaith y canllawiau hyn ar yr iaith Gymraeg yn yr ymgynghoriad cyhoeddus sydd i ddod.

**Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?**

Y rhanddeiliaid yw'r 35,000 o weithwyr sy'n gweithio yn adrannau perthnasol Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Mae'r 29% o'r gweithlu sy'n siarad Cymraeg, yn ôl yr Arolwg Poblogaeth Blyneddol, yn arbennig o berthnasol i'r asesiad hwn.

Bydd anghenion iaith Gymraeg pobl hŷn hefyd yn cael eu hystyried yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Bydd y canllawiau ar gael yn ddwyieithog.

**Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod.** (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)

Amherthnasol.

**Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?** e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?

**CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU**

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith**

**Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.****Effeithiau cadarnhaol:**

Credwn y bydd cyflwyno'r canllawiau hyn yn cael effaith gadarnhaol fach ar yr iaith Gymraeg; drwy gynnig gwybodaeth bwysig i gynulleidfa fawr ym mha bynnag iaith y mae'n well gan yr unigolyn ei derbyn a sicrhau hefyd bod ymyriadau a gyflwynir mewn achosion o gam-drin domestig yn sensitif i anghenion ieithyddol y bobl dan sylw.

**Effeithiau negyddol:**

Ni chredwn y bydd y canllawiau hyn yn cael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar yr iaith Gymraeg.

**Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?**

Bydd.

**Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:**

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 562,016 (19%) o bobl Cymru'n siarad Cymraeg, fodd bynnag mae'r nifer a'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn y Sector Cyhoeddus yn uwch nag yn y boblogaeth yn gyffredinol. Rhoddir yr ystadegau a ddefnyddiwyd i lunio'r asesiad hwn isod.

**% o bobl 16+ oed sydd mewn gwaith sy'n dweud y medrant****siarad Cymraeg, yn ôl sector, am y flwyddyn hyd at 30 Medi 2014**

	Ydw, yn gallu siarad Cymraeg	Na, ddim yn gallu siarad Cymraeg	Pawb
Preifat	22	78	100
Cyhoeddus	29	70	100
Gwirfoddol	31	69	100
Ddim ar gael	25	75	100
Pob sector	25	75	100.0

*Flynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol, ONS*

**Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?**

Cadarnhaol:   
 Negyddol:   
 Niwtral:   
 Anhysbys:

**Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad**

1. Dim newid sylweddol

	2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau	<input type="checkbox"/>
	3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru	<input type="checkbox"/>
	4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno	<input type="checkbox"/>
<p><b>Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:</b></p> <p><b>Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg?</b></p> <p><b>Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:</b></p>		
Amherthnasol.		
<p><b>Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?</b></p>		
<p>Byddwn yn gofyn i randdeiliaid:</p> <p>Pa gyfleoedd sy'n bodoli i sicrhau bod y canllawiau hyn yn rhoi cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? A oes gennych unrhyw bryderon y gallai'r canllawiau hyn gael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?</p>		
<p><b>CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO</b></p>		
<p><b>Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?</b></p>		
<p><b>Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?</b></p>		
<p><b>Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?</b></p>		
<p><b>Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg</b></p>		

#### 4. Datganiad

##### Arweinydd polisi:

*\*Dileer fel y bo'n briodol:*

**\*Mae'r polisi hwn / ~~Nid yw'r polisi hwn~~ yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.**

Enw: Hannah Fisher

Adran: Tîm Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig, Is-adran Diogelwch Cymunedol

Dyddiad(au):11/11/15

Llofnod: H. Fisher

Dyddiadau adolygu: Ebrill 2016

##### ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL

Rwyf yn fodlon bod yr Aseiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu

Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu